



ARIAN

S M A R T

£



£



PECYN CYMORTH ARIAN SMART

Gyngor ac arweiniad ymarferol ac ysbrydoledig
am ffyrdd o helpu oedolion ifanc i ddeall arian
a meithrin eu gallu i ddelio ag arian.



Ariennir
gan


Gwasanaeth
Cynghori Ariannol

Shwmae!

Hello!

CROESO


Welcome

Croeso gan Brif Swyddogion Gweithredol Youth Cymru

Croeso i Becyn Cymorth Gallu Ariannol Youth Cymru. Yn y tudalennau hyn, fe gewch chi gyngor ac arweiniad ymarferol ac ysbrydoledig am ffyrdd o helpu oedolion ifanc i ddeall arian a meithrin eu gallu i ddelio ag arian. Wrth i bobl ifanc bontio i fyw yn annibynnol, mae dyfodol o annibyniaeth ariannol bersonol yn gallu bod yn destun pryder ac yn dipyn o her i rai, ac rydyn ni yn Youth Cymru'n gwybod bod ar bobl ifanc angen yr agwedd, y sgiliau a'r wybodaeth briodol i godi i'r sialensiau newydd hyn. Dyma'r amser delfrydol i hyfforddi a chynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau hanfodol hyn a fydd yn galluogi iddynt osgoi problemau ac anawsterau ariannol diangen yn y dyfodol. Rydyn ni'n gobeithio y bydd y pecyn cymorth yn eich helpu chi i ddarparu'r cymorth yma, ac i sicrhau ein bod ni i gyd yn parhau i gyfrannu at ddatblygu eu dealltwriaeth am eu rhwystrau a'u problemau eu hunain, dod o hyd i atebion a'u cynorthwyo i symud tuag at fod yn fwy ariannol alluog nawr ac yn y dyfodol.

Mel Ryan a Julia Griffiths

Youth Cymru - Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro



Beth sy'n gweithio?

I ategu Strategaeth Gallu Ariannol y DU, lansiodd y Gwasanaeth Cyngori Ariannol gronfa newydd o hyd at £7 miliwn er mwyn helpu i ddatblygu dealltwriaeth sector-eang am sut y gellir gwella galluoedd ariannol pobl. Nod y Gronfa What Works yw casglu tystiolaeth, a chanfod pa ymyraethau sydd orau wrth helpu pobl i reoli eu harian. Hyn sydd wedi ariannu gwaith ymchwil, dyluniad a datblygiad y pecyn cymorth hwn.

Y Pecyn Cymorth

Pecyn Cymorth ar gyfer pobl sy'n addysgu cyfoedion ifanc a gweithwyr ieuencid yw Call gydag Arian. Cafodd ei ddyluniad a'i gyfluniad eu bwydo gan ein hymgynggoriad â dros 400 o bobl ifanc 16-25 oed sydd wedi ein cynorthwyo ni i glustnodi'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag bod yn ariannol alluog. Cafodd ei ddylunio i gael ei ddefnyddio gan bobl ifanc sy'n gweithredu fel addysgwyr cyfoedion ar gyfer pobl ifanc eraill, ond mae ei gynnwys yr un mor ddefnyddiol i weithwyr ieuencid neu bobl eraill sy'n gweithio ym maes ieuencid. Mae'r gweithgareddau'n darparu adnoddau sy'n helpu i glustnodi a thrafod y rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc er mwyn rhoi'r pŵer iddynt fynd i'r afael â nhw, dod o hyd i atebion a dod yn fwy ariannol alluog wrth iddynt symud i fod yn oedolion.

Gellir defnyddio'r sesiynau ar eu pennau eu hunain, neu i gydategu eich gwaith gallu ariannol eich hun. Y gobaith yw y bydd y pecyn cymorth hwn yn hwyluso gwaith datblygu pellach, ac y bydd yn galluogi'r bobl ifanc i reoli eu harian yn well, teimlo'n hyderus yn eu sgiliau a'u galluoedd, a deall ble i droi am gymorth. Mae yna obaith hefyd y bydd yn darparu dull o rannu a gwerthfawrogi safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc, sy'n golygu y bydd y bobl ifanc a'r gweithwyr ieuencid yn cael cefnogaeth gyda dirnadaeth ac atebion o ran sut i feithrin sgiliau ariannol wrth edrych tua'r dyfodol.

Mae 3 sesiwn yn y pecyn yma. Gellir cyflwyno'r sesiynau hyn ar wahân ar wahanol ddiwrnodau, neu eu cyfuno a'u cynnig fel cwrs diwrnod. Bydd pob sesiwn yn cynnig nifer o weithgareddau sy'n gysylltiedig â deilliannau dysgu penodol, a lle bo'n berthnasol, darperir adnoddau.


**DDYLUNIAD A'I GYFLUNIAD
EU BWYDO GAN EIN
HYMGYNGHORIAD**

- Â DROS -
400 BOBL IFANC
OED 16-25

**SYDD WEDI EIN
CYNORTHWYO NI I
GLUSTNODI'R RHWYSTRAU
SY'N EU HALAT RHAG BOD
YN ARIANNOL ALLUOG**



Dyma ddadansoddiad o bob sesiwn:



SESIWN 1 CHWALU'R RHWYSTRAU

Wynebu Rhwystrau, Sut i Oresgyn Rhwystrau a Chadw Rheolaeth ar eich Rhwystrau.



SESIWN 2 PŴER GWARIO

Hanfod neu Foeth, Gwneud i Bob Ceiniog Gyfri a'r Dyddiadur Gwario.



SESIWN 3 CAMPAU CYNILO

Chwilio am Arbedion, Arbedion Di-ri.



Gwerthusiad

Mae dyluniad a datblygiad y pecyn cymorth hwn wedi darparu adnodd newydd y mae mawr angen amdano ar gyfer y sector ieuenctid, ac wedi hwyluso prosiect ymchwil hefyd. Mae Treial Rheoli ar Hap wedi caniatáu i ni archwilio i ba raddau y mae addysg ym maes galluoedd ariannol gan gyfoedion (neu gan bobl o oedran tebyg) yn cynorthwyo oedolion ifanc i bontio i fyw yn annibynnol a meithrin sgiliau ariannol. Mae'r canlyniadau, ac adroddiad mwy manwl ar ein canfyddiadau yn www.youthcymru.org.uk.



Diolchiadau

Diolch i holl bobl ifanc a staff Canolfannau Hyfforddi ITEC Caerdydd, Cwmbrân Blackwood a Llwynypia, Canolfannau ACT Training yng Nghaerdydd, Caerffili a Abertawe, Educ8 yn Ystrad Mynach, y Gwasanaeth Cyngori Ariannol - Cronfa What Works a Clear View Research Ltd. Diolch arbennig i'n tri Phrentis Addysgu Cyfoedion ym maes Galluoedd Ariannol - ni allem fod wedi gwneud hyn hebddoch chi.

Cytundeb Grŵp



Pwrpas:

Y cytundeb grŵp yw un o'r ymarferion pwysicaf wrth weithio gyda grŵp. Pwrpas y cytundeb grŵp yw creu amgylchedd agored a pharchus lle gall y grŵp gydweithio'n greadigol, a lle gall unigolion deimlo'n ddiogel wrth rannu eu syniadau a'u safbwyntiau Mae hi'n bwysig taw'r grŵp sy'n creu hyn nid y tiwtor, am ei bod yn rhoi'r awenau i'r grŵp yn hytrach na bod rhywun yn "dweud y drefn" wrthynt.

Deunyddiau:

Papur siart troi, peniau ffelt, deunydd glynu (fel Blu-tac).

Amser:

10 munud.

- Esboniwrch i'r grŵp hwyrach y byddan nhw'n trafod materion sensitif ac y dylent fynd ati fel grŵp i gytuno ar reolau ar gyfer y sesiwn.
- Rhestrwch y rheolau ar y siart. Gofynnwch i'r holl bobl ifanc a ydyn nhw'n deall y rheolau, neu a oes angen esboniad pellach arnynt. Ar ôl eu cwblhau, gosodwch y rheolau mewn man lle gall pawb eu gweld trwy gydol y sesiwn gan ddefnyddio'r deunydd glynu i'w diogelu os oes angen.
- Os oes rhywun yn torri'r rheolau, cyfeiriwch nhw at daflen reolau'r grŵp, neu mae'n well fyth os yw'r grŵp yn cyfeirio'r person sydd wedi torri'r rheolau at daflen reolau'r grŵp.

Cadwch y rheolau a luniwyd ac ewch nôl atynt ar ddechrau pob sesiwn.



RHEOLAU'R GRŴP

1. Mae popeth sy'n cael ei ddweud yn y grŵp yn aros yn y grŵp.
2. Parchwch bawb.
3. Gwnewch eich gorau!



Torri'r Iâ



- Gêm hyfforddi sy'n helpu i 'dorri'r iâ' ar ddechrau cwrs neu sesiwn yw hyn. Mae'n helpu pobl i ddysgu, yn gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy cysurus ac yn eu tynnu at ei gilydd fel grŵp mewn ffordd hwyliog ac anfygythiol.
- Dyma ffordd effeithiol o gyflwyno pobl i'w gilydd ar ddechrau sesiwn hyfforddi lle nad ydynt yn eu hadnabod ei gilydd yn dda. Gallech gynnal gweithgaredd torri'r iâ wrth ddychwelyd ar ôl cinio neu egwyl hefyd, neu hyd yn oed ar ôl gweithgaredd anodd.
- Mae gweithgareddau torri'r iâ sy'n cael eu dylunio a'u hwyluso'n dda yn gallu rhoi cychwyn cadarn i bethau. Mae dod i nabod ei gilydd a'r hwyluswyr, a dysgu am amcanion y digwyddiad, yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fwy ymwybodol, gan eu galluogi i gyfrannu'n fwy effeithiol at ddeilliannau llwyddiannus.
- Gall yr hyfforddwr/addysgwr ddefnyddio gemau torri'r iâ i gyflawni asesiad cyflym o natur y grŵp i bwysu a mesur faint maen nhw'n ei wybod am y pwnc, pa mor gyffyrddus ydyn nhw yn eu grwpiau, eu cefndir, eu harbenigedd ac ati.

Rhaid i ffocws gweithgareddau torri'r iâ llwyddiannus fod ar gyflawni eich amcanion, a rhaid iddynt fod yn briodol i'r grŵp o bobl sydd dan sylw.

Pethau i'w Cofio a'u Hosgoi mewn Gemau Torri'r Iâ

Mae pob math o gemau torri'r iâ ar gael mewn llyfrau ac ar lein. Gallwch greu eich gweithgaredd torri'r iâ eich hun, neu addasu un rydych chi wedi ei ffeindio. Bydd y rhestr yma o bethau i'w **cofi**o a phethau i'w **hosgoi** yn eich cynorthwyo chi i ddewis y gweithgareddau torri'r iâ sydd orau ar gyfer eich sesiwn chi.

COFIWCH

- Ddewis gweithgaredd torri'r iâ sy'n briodol i'r grŵp o dan sylw.
- Caniatáu digon o amser ar gyfer gweithgareddau torri'r iâ.
- Defnyddio gweithgareddau torri'r iâ i greu amgylchedd cyffyrddus.
- Sicrhau bod y gweithgaredd a'r cyfarwyddiadau'n syml.
- Monitro'r rhai sy'n cymryd rhan.
- Bod yn barod i newid pethau os oes angen e.e. os oes gennych lai neu fwy o grwpiau, defnyddio siart droi yn hytrach na nodiadau gludiog ac ati.
- Bod â chynllun wrth gefn. Os nad yw'r gweithgaredd yn gweithio, defnyddiwch un arall.

OSGOWCH

- Gyflwyno gweithgaredd torri'r iâ a fydd yn gwneud i bobl eraill deimlo'n anesmwyth.
- Cyfyngu ar weithgareddau torri'r iâ i ddechrau cyfarfod neu ddigwyddiad hyfforddi - defnyddiwch nhw i adfywio'r grŵp ar unrhyw adeg.
- Gorfodi pobl i gymryd rhan.



Gweithgaredd Torri'r Iâ Enghreifftiol



Bingo Arian



Nod y gweithgaredd hwn yw i bobl symud o gwmpas yr ystafell a siarad â'i gilydd. Rhwch y daflen Bingo Arian i bawb a gofynnwch iddyn nhw ddarllen y daflen a gofyn i bob person yn y grŵp a ydyn nhw'n cyd-fynd ag unrhyw un o'r datganiadau ar y daflen. Gofynnwch i'r grŵp sefyll i fyny a symud o gwmpas yr ystafell. Yna, gofyn i'w gilydd pa fath o ysbeiliant ydyw a chroesi'r datganiad cyfatebol ar y daflen. Rhwch amserlen o tua 5 munud. Y nod yw bod y cyntaf i groesi'r holl ddatganiadau a gweiddi "BINGO". Os nad oes neb yn gweiddi Bingo, yna mae'r un sydd wedi croesi'r mwyaf yn ennill y gêm.

BINGO ARIAN

Rwy'n fodlon bwyta pethau ar ôl eu dyddiad 'gwerthu erbyn' (nid y dyddiad 'defnyddio erbyn')

Rwy'n ofalus gydag arian ac yn meddwl cyn prynu rhywbeth

Rwy'n coginio pethau â'r cynhwysion yn lle bwyta prydau parod

Rwy'n gwario pob ceiniog cyn diwrnod talu

Rwy'n siopa o gwmpas am well bargaen ac eitemau sêl

Dwi ddim yn benthyc arian i neb fel rheol - nid hael ond hael adref

Rwy'n cynilo arian bob mis at y dyfodol

Rwy'n gwybod faint yn union o ddyled sydd gan rywun i mi

Rwy'n gwario pob ceiniog yn syth ar ôl cael fy nhalu

Rwy'n prynu'r dewis rhatach yn hytrach na'r brandiau drytach wrth brynu bwyd fel arfer

Rwy'n gwario'r rhan fwyaf o fy arian ar filiau a rhent

Mae angen help arna'i i reoli fy arian

Dwi ddim yn teimlo'n euog wrth wario arian arnaf fi fy hun

Rwy'n gwario'r rhan fwyaf o fy arian ar gael hwyl

Rwy'n dwlu mwy ar roi anrhegion na'u derbyn


Rwy'n gallu cynilo am rhywbeth arbennig



SESIWN 1


CHWALU'R RHWYSTRAU

Mae'r sesiwn yma'n edrych ar y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth ddelio â Gallu Ariannol. Mae yna dri gweithgaredd sy'n helpu i glustnodi'r rhwystrau ac ymchwilio i atebion i oresgyn y rhwystrau hynny. Bydd y bobl ifanc yn gallu edrych ar eu rhwystrau eu hunain a'u gosod eu hunain mewn sefyllfa lle gallant gymryd yr awenau a rheoli eu harian yn well.



SESIWN 1, GWEITHGAREDD 1

Wynebu'r rhwystrau



Nodau:

Nod y gweithgaredd yma yw rhoi cyfle i'r bobl ifanc glustnodi a deall y rhwystrau sy'n eu hatal rhag bod yn ariannol alluog, a thrwy drafodaeth grŵp, archwilio a oes modd iddynt oresgyn y rhwystrau hyn.



Deilliannau:

Bydd y bobl ifanc....

- Yn cydnabod ac yn deall y rhwystrau i allu ariannol
- Yn newid eu meddylfryd am eu gallu ariannol
- Yn teimlo'n fwy hyderus am eu gallu eu hunain i reoli arian
- Yn fwy gobeithiol ac ysbrydoledig am eu rhagolygon a'u hamcanion at y dyfodol

Torri'r îâ:

Gweler yr esiampl o weithgaredd Torri'r îâ uchod.

Rheolau'r Grŵp:

Lluniwch gytundeb grŵp (yn y sesiwn gyntaf), ac edrychwch arno eto ar ddechrau pob sesiwn.

Adnoddau:

Siart bapur droi, peniau, cardiau rhwystr, taflenni Dan Reolaeth ac Allan o Reolaeth.

(gweler tudalen 12 a 13)

Cynnal y Gweithgaredd

1.

Esboniwch: Yn y sesiwn yma, byddwch yn edrych ar nifer o rwystrau a allai fod yn atal y bobl ifanc rhag gallu rheoli eu harian. Rhwch y taflenni Dan Reolaeth ac Allan o Reolaeth ar y wal gyferbyn â'i gilydd. Darllenwch rwystr o'r cardiau ac eglurwch i'r bobl ifanc i feddwl a yw hyn yn rhwystr ai peidio ac os felly, a allant oresgyn y rhwystr hwnnw a sut. Os ydynt yn gallu eu rheoli meant Dan Reolaeth felly mynd tuag at ochr y taglen Dan Reolaeth ond os nad ydynt, byddant yn mynd i ochr y cerdyn Allan o Reolaeth.

2.

Gofynnwch i'r grŵp godi ar eu traed. Darllenwch y cardiau allan i bawb fesul un, a gofynnwch i'r bobl ifanc fynd i sefyll wrth y daflen reoli fwyaf priodol.

3.

Arhoswch nes bod pawb wedi gwneud eu dewis. Trowch at y grŵp sy'n sefyll wrth y daflen Allan o Reolaeth, a gofynnwch i bob un pam y gwnaethon nhw ddewis sefyll yno. Pan fyddant wedi rhoi eu hateb, trowch at y grŵp Dan Reolaeth.

4.

Gofynnwch i'r grŵp Dan Reolaeth esbonio i'r grŵp Allan o Reolaeth pam eu bod wedi dewis Dan Reolaeth. Esboniwch fod angen iddyn nhw drïo newid meddyliau'r grŵp arall fel eu bod yn symud i'w grŵp nhw.

5.

Anogwch y grŵp i drafod a yw'r rhwystr 'dan reolaeth' neu 'allan o reolaeth', gan roi rhesymau dros eu dewis. Yn ystod y drafodaeth hon, gall pobl newid eu meddyliau a symud i'r ochr arall.

6.

Gallwch drafod cynifer neu cyn lleied o'r cardiau rhwystr ag y gallwch chi o fewn yr amser, yn dibynnu pa mor ddwfn mae'r drafodaeth am bob rhwystr yn mynd. Ni fyddwch chi'n gallu eu trafod nhw i gyd o fewn yr amser a roddwyd.


7.

Holi ac Ateb/cyfleoedd i drafod:

- Anogwch drafodaeth. Gallech ofyn cwestiynau i fwydo'r drafodaeth, ond peidiwch â rhoi'r ateb na dweud wrth neb eu bod nhw'n anghywir.
- Mae'n bosibl na fyddan nhw'n gallu newid y sefyllfa neu'r rheswm dros y rhwystr mewn ambell i achos, ond gallent newid eu hymddygiad er mwyn goresgyn y rhwystr e.e. mae'r bil ffôn wedi cynyddu. Os, er enghraifft, nad ydynt nhw'n gallu cael cynllun rhatach, byddai angen iddyn nhw edrych ar eu gwariant ar bethau eraill, a lleihau eu gwariant ar bethau eraill er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd.
- Gofynnwch a oes unrhyw un wedi newid eu safbwynt yn sgil pob un o'r trafodaethau, ac os felly, gofynnwch iddyn nhw symud i'r ochr arall.
- Os yw unigolion yn teimlo nad oes modd iddynt oresgyn y rhwystr, yna gofynnwch pam, a throwch at y grŵp unwaith yn rhagor i weld a all trafodaeth bellach newid eu ffordd o feddwl.

★ Awgrymiadau Defnyddiol ★


- * Mae'r Cardiau Rhwystr isod. Gallwch gopïo'r rhain a'u torri i wneud cardiau unigol.
- * Ymgynffwrdd â'r cardiau a'r Daflen Atebion Enghreifftiol cyn y sesiwn
- * Rhowch y label Dan Reolaeth ar un wal, a'r label Allan o Reolaeth ar wal arall ar ochr arall yr ystafell.
- * Mae trafod a dadlau'n dda, ond cofiwch sicrhau bod y bobl ifanc yn cadw o fewn cytundeb y grŵp ac nad yw pethau'n mynd yn rhy danbaid.
- * Anogwch bawb i gymryd rhan yn y drafodaeth, ond os oes rhywun yn dewis peidio, mae hynny'n iawn hefyd. Maen nhw'n chwarae rhan ac yn gwrando o hyd.
- * Gellir goresgyn yr holl rwystrau, ond mae'n bosibl bod rhesymau pam nad yw'r bobl ifanc yn gallu ffeindio'u ffordd. Mae hynny'n iawn, ac mae hawl ganddynt gael eu barn.
- * Mae llawer o rwystrau 'allan o'u rheolaeth' ond os bydd y bobl ifanc yn archwilio gwahanol ddewisiadau ac yn edrych ar ymddygiad cadarnhaol, bydd dewisiadau ganddynt a byddant 'Dan Reolaeth'.
- * Gallwch ddosbarthu'r '**Cardiau Rhwystr – Taflen Atebion Enghreifftiol**' i gynnydd enghreifftiau o sut i oresgyn rwystrau (opsiynol).




**Dyluniad Allan
o Reolaeth yma**

**Dyluniad Dan
Reolaeth yma**

Mae angen gosod y cardiau Dan Reolaeth ac Allan o Reolaeth ar waliau cyferbyn a'i gilydd yn yr ystafell lle gall y bobl ifanc symud unwaith y byddant wedi penderfynu pa ochr y mae'r cerdyn rhwystr yn gorwedd.





Taflen waith y cardiau rhwystr

I'w hargraffu a'u torri yn gardiau unigol ar gyfer Gweithgaredd 1. Gallwch eu gwneud yn fwy neu'n llai. Gallwch eu hargraffu ar gerdyn neu bapur lliw a'u lamineiddio.



**Does dim arian
gen i**



**Mae fy rhent wedi
mynd i fyny**



**Rwy'n gwario
gormod o arian
yn syth ar ôl cael
fy nhalu**




**Does dim cyfrif banc
gen i, mae fy arian yn
mynd yn syth i gyfrif
rhywun arall**



**Mae fy arian i gyd
yn mynd ar filiau**



**Does dim angen i
mi reoli fy arian am
fod rhywun arall yn
gwneud hyn ar fy rhan**



**Mae pris fy nhocyn
bws wedi mynd i
fyny**



**Mae fy ffrindiau'n
dylanwadu arnaf i i
wario arian**



**Rwy'n benthycu arian
i ffrindiau a does dim
digon ar ôl i fi fy hun**



**Rwy'n cynnal fy
nheulu fel y prif
enillydd cyflog**



**Rwy'n hoffi brandiau
drud a dwi ddim yn
fodlon gwisgo dim
byd arall**



**Os ydw i'n brin o
arian, rwy'n gofyn i
riant am ragor**



**Dwi ddim yn
gwybod ble i droi
am gymorth**



**Rwy'n gwario fy holl
arian ar brynu bwyd
allan a bwyd tecawê**



**Rwy'n gwario
rhan fwyaf o'm
harian ar fy ffon
symydol**



**Dwi erioed wedi
cynilo o'r blaen**



Rwy'n smygu gormod



**Does neb yn fy nheulu'n
gweithio ac rydyn ni'n
byw ar fudd-daliadau.
Does dim llawer o arian
ar gael**



**Rydw i wedi tyfu i
fyny o gwmpas pobl
sy'n gwario arian ar
ddiod neu gamblo**



**Rwy'n benthyg arian
bob wythnos am fy mod
i'n rhedeg allan o arian
yn ad-dalu fy nyled**





Cerdyn Rhwystr - Taflenni Ateb Enghreifftiol

Mae'r wybodaeth isod yn cynnig esiamplau o sut y gellir goresgyn rhwystrau. Gellir defnyddio'r esiamplau hyn wrth ofyn cwestiynau penagored i fwydo'r drafodaeth. Darllenwch y rhain cyn y sesiwn i gael dealltwriaeth am sut i oresgyn y rhwystrau sydd dan drafodaeth.

Does dim digon o arian gen i

Edrycha ar rwyd ti'n gwario dy arian, ac ymhle y gallet ti wneud arbedion neu newidiadau e.e. os wyt ti'n bwyta allan yn aml, gwna hyn yn fwy o beth achlysurol, neu gwna fwyd gartref.

Mae fy rhent wedi mynd i fyny

Dwyt ti ddim yn gallu newid hyn, ond gallet ti edrych ar ffyrdd eraill o wneud newidiadau i dy wariant. Os yw hi'n dal i fod yn broblem, gallet ti chwilio am lety rhatach neu newid dy swydd.

Rwy'n gwario gormod o arian yn syth ar ôl cael fy nhalu

Llunia gyllideb am yr wythnos/mis a gweithia allan beth fydd cyfanswm dy filiau. Wedyn penderfyna faint o arian fydd ei angen arnat ti bob dydd nes i ti gael dy dalu eto.

Does dim cyfrif banc gen i, mae fy holl arian yn mynd i gyfrif banc rhywun arall

Agora gyfrif banc. Bydd angen dogfennau adnabod penodol arnat ti i wneud hyn. Os wyt ti o dan 18 oed, mae'n bosibl y bydd angen i riant neu ofalwr fynd gyda ti. Dyma ddolen sy'n esbonio pa ddogfennau fydd eu hangen arnat

<https://transferwise.com/gb/blog/how-to-open-a-bank-account-in-uk>

Mae fy holl arian yn mynd ar filiau

Llunia restr o'r holl filiau hanfodol, oes modd cwtdgi ar y rhain? Os yna unrhyw beth y gallet ti rhoi'r gorau iddo (oes wir angen amdano)? Oes opsiynau eraill ar gael?

Does dim angen i mi reoli fy arian am fod rhywun arall yn gwneud hyn ar fy rhan

Os yw hyn yn gweithio'n dda a dy fod ti'n byw o fewn cyllideb, gofynna i'r person sy'n rheoli'r arian dy helpu di i ddeall fel y gelli di ddechrau ei reoli dy hun.

Mae pris fy nhocyn bws wedi mynd i fyny

Ymchwilia i docynnau wythnos neu gardiau disgownt lle'r wyt ti'n talu cyfandaliad. Oes modd i ti gerdded, mynd ar feic neu rannu lifft gyda rhywun?

Mae fy ffrindiau'n dylanwadau arnaf i i wario arian

Penna gyllideb a chadwa ati. Gelli di ddim â gwario mwy nag sydd gen ti. Edrycha ar ddiwrnodau allan sy'n rhatach neu am ddim, neu ystyria nosweithiau i mewn gyda ffrindiau.

Rwy'n benthyca arian i ffrindiau a does dim digon ar ôl i fi fy hun

Rhoi'r gorau i fenthyca os oes angen yr arian arnat ti dy hun. Os wyt ti'n benthyca arian yn rheolaidd i'r un person maent yn dibynnu ar yr arian. Nid ydynt yn dysgu byw o fewn eu modd ac gallet ti fynd i ddyled dy hun.

Rwy'n cefnogi fy rheulu fel prif enillydd cyflog

Gweithia allan faint sydd ei angen arnat i fyw am y mis, i dalu am docynnau bws a bwyd ac ati, a chadwa hynny i un ochr.

Rwy'n hoffi brandiau drud ac yn gwrthod gwisgo dim byd arall

Pryna nwyddau brand yn y sêl neu pryna nhw'n achlysurol.
Chwilia am ddillad rhad wrth siopa.

Os ydw i'n mynd yn brin o arian, rwy'n gofyn i riant am ragor

Gweithia allan faint sydd ei hangen arnat ti am yr wythnos a llunia gyllideb. Ceisia gadw ati. Os na fyddi di'n dysgu nawr, gallai fod yn fwy anodd yn nes ymlaen.

Dwi ddim yn gwybod ble i droi am gymorth

Mae gwybodaeth ar gael ar lein. Trefna apwyntiad i fynd i'r banc i gael cyngor am gynilo a chyllidebu. Mae manylion ar y daflen Cyngor a Chyfeiriadur Llinellau Cymorth sy'n rhestru sefydliadau sy'n gallu helpu gyda hyn.

Rwy'n gwario fy holl arian ar fwyta allan a bwyd tecawê

Coginia/gwna fwyd gartref. Pryna fwyd o lefydd rhatach. Gosoda gyfyngiad ar bryd rwyd ti'n prynu bwyd mewn bwytai bwyd brys

Rwy'n gwario rhan fwyaf om harian ar fy ffon symudol

Wyt ti'n gwario mwy na phris dy contract bob mis? Pam? Gofynna i ddarparwydd y contract osod cyfyngiad ar y ffôn fel na fydd dy fil yn fwy na'r contract bob mis. Os yw hi'n costio arian i anfon lluniau ar neges destun, ystyria ddefnyddio Messenger neu WhatsApp i'w hanfon am ddim.

Dwi erioed wedi cynilo o'r blaen

Ar ôl codi dy gostau am yr wythnos/mis o dy arian, beth am ddechrau cynilo swm bach? Gallai hyn fod cyn lleied â £1 yr wythnos. Os wyt ti'n gallu byw'n gysurus heb y swm yma am ychydig wythnosau, beth am ei gynyddu ychydig bach. Trefna ymweld â dy fanc/cymdeithas adeiladu leol neu chwilia ar-lein. Byddan nhw'n gallu dy gynghori ar y cynllun cynilo gorau ar gyfer dy anghenion.

Rwy'n smygu gormod

Mae yna sefydliadau sy'n gallu dy gynorthwyo i dorri lawr neu roi'r gorau iddi, fel AshWales neu GIG Cymru. Os wyt ti'n chwilio i dorri i lawr ar dy wariant, chwilia am opsiynau rhatach.

Does neb yn fy ngheulu'n gweithio, ac rydyn ni'n byw ar fudd-daliadau. Does dim llawer o arian ar gael


Edrycha beth y mae angen i ti ei wario ar deithio a bwyd, a llunia gyllideb am bob dydd. Ystyria ffyrdd o arbed arian fel paratoi bwyd yn hytrach na mynd i fwyty bwyd brys e.e. McDonalds

Rydw i wedi tyfu i fyny o gwmpas pobl sy'n gwario arian ar ddiod a gamblo

Bydd yn synhwyrol o ran beth rwyd ti'n gallu ei fforddio. Gelli di wneud hyn trwy bennu swm i'w wario wrth fynd allan, a chadw ato.



Rwy'n benthyc arian bob wythnos am fy mod i'n rhedeg allan o arian yn ad-dalu fy nyled

Edrycha ar dy wariant a cheisia fenthyc llai a llai bob wythnos nes bod dim angen benthyc dim.



SESIWN 1, GWEITHGAREDD 2

Sut i oresgyn rhwystrau



Nodau:

Nod y gweithgaredd yma yw cynorthwyo'r bobl ifanc edrych ar eu rhwystrau nhw, a meddwl am syniadau sut i'w goresgyn i fod yn fwy ariannol galluog.

Adnoddau'r sesiwn:

Siart droi, peniau.



Deilliannau:

Bydd y bobl ifanc....

- Yn cydnabod ac yn deall y rhwystrau i allu ariannol.
- Yn newid eu meddylfryd am eu gallu ariannol.
- Yn teimlo'n fwy hyderus am eu gallu eu hunain i reoli arian.
- Yn fwy hyderus am eu hymreolaeth ac yn gwella'u gallu i reoli eu harian.

Cynnal y Gweithgaredd

1.

Esboniwrch: Yng Ngweithgaredd 1, dylent fod wedi clustnodi rhwystrau sy'n gallu atal pobl rhag bod yn gallu rheoli eu harian. Trwy'r gweithgaredd yma, byddan nhw'n archwilio beth sy'n effeithio arnyn nhw'n bersonol, yn trafod y peth mewn grŵp, ac yn dod o hyd i ffyrdd o oresgyn y rhwystr. Rhwch bapur siart droi a pheniau i bob grŵp.

2.

Gofynnwch i bob person feddwl am un peth sy'n eu hatal rhag bod yn alluog yn ariannol ac i ysgrifennu hyn ar y siart droi.

3.

Trafodwch bob un o'r rhwystrau ac ysgrifennwch eu syniadau ar sut i symud y rhwystr rhag bod yn 'Allan o Reolaeth' i fod yn 'Dan Reolaeth'. Mae angen iddynt feddwl am yr hyn y gallant ei wneud, sut y gallant ei wneud a phwy all eu helpu, er enghraifft, gallant chwilio am wefannau cyngor ar-lein, ffonio asiantau cyngor arian neu siarad â rhywun yn bersonol a all eu helpu.

4.


Gofynnwch i'r grwpiau fwydo eu hatebion nôl i'r grŵp. Gofynnwch a oes unrhyw awgrymiadau eraill ganddynt.




Awgrymiadau Defnyddiol




- * Anogwch y grwpiau i rannu syniadau ac i ysgrifennu beth maen nhw wedi ei drafod i lawr, hyd yn oed os nad yw pawb yn gytûn.
- * Mae hi'n bwysig eu bod nhw'n cael cyfle i ddysgu gan ei gilydd.
- * Cerddwch o gwmpas y byrddau oherwydd hwyach y bydd ar rai angen cymorth neu gefnogaeth. Gofynnwch gwestiynau i'w cynorthwyo i ddod o hyd i rhwystrau i weithio arnynt.





SESIWN 1, GWEITHGAREDD 3

Cadw Rheolaeth ar eich Rhwystrau



Nodau:

Nod y gweithgaredd yma yw rhoi cyfle i'r bobl ifanc lunio cynllun a chofnodi pa newidiadau y gallant eu gwneud i gadw rheolaeth ar eu rhwystrau i'w gwneud nhw'n ariannol alluog.

Adnoddau'r sesiwn:

Taflen Cynllunio fy Rheolaeth, peniau.



Deilliannau:

Bydd y bobl ifanc....

- Yn cydnabod ac yn deall y rhwystrau i allu ariannol.
- Yn newid eu ffordd o feddwl am eu gallu ariannol.
- Yn teimlo'n fwy hyderus am eu gallu eu hunain i reoli arian.
- Yn fwy hyderus am eu hymreolaeth ac yn gwella'u gallu i reoli eu harian.

Cynnal y Gweithgaredd

1.

Yng ngweithgaredd 2, clustnododd y bobl ifanc ba rwystrau oedd yn effeithio arnyn nhw fel unigolion. Gofynnwch iddyn nhw edrych ar y Daflen Weithgaredd 'Cynllunio fy Rheolaeth'.

2.

Esboniwch y colofnau ac ewch drwy'r esiampl ar y ffurflen.

3.

Gan weithio fesul un gan ddefnyddio'r daflen weithgaredd 'Cynllunio fy Rheolaeth', bydd pob person ifanc yn creu cynllun i'w cynorthwyo i gymryd rheolaeth dros eu rhwystrau wrth symud ymlaen.

4.

Taflen i'w chadw yw hon, a daw'n gynllun i'r bobl ifanc i'w cynorthwyo i ddod yn ariannol alluog.

★ Awgrymiadau Defnyddiol ★

- ★ Defnyddiwch taflen enghreifftiau'r Cardiau Rhwystrau i'ch cynorthwyo i dywys y drafodaeth os oes angen.
- ★ Anogwch y bobl ifanc i gymryd yr awenau ac i gydnabod eu bod nhw'n gallu cymryd rheolaeth dros eu harian.
- ★ Esboniwch i'r grŵp y byddan nhw'n synnu faint o arian y gallent ei arbed trwy gynllunio eu gwariant a siarad â'r bobl iawn.
- ★ Llenwch y daflen Cynllunio fy Rheolaeth eich hun cyn y gweithgaredd fel eich bod chi'n ei deall yn llwyr, ac fel y gallwch ddarparu esiamplau go iawn os oes angen.

Taflen gweithgaredd Cynllunio fy Rheolaeth

Rhwyrstr	Beth sydd angen digwydd er mwyn cyflawni hyn?	Pwy gallaf i siarad â nhw i gael cymorth?	Amserlen
<i>Esiampl:</i> <i>Pop ceiniog yn mynd ar filiau</i>	<i>Cwtogi ar filiau Gwefannau cymharu prisiau Gosod bloc ar ddata, munudau a negeseuon testun ar y ffôn</i>	<i>Gwefan, cynghorydd banc, siarad â darparwyr y biliau</i>	<i>1 mis, erbyn amser y bil nesaf</i>



SESIWN 2

PŴER GWARIO


Mae'r sesiwn yma'n edrych ar sut y mae pobl ifanc yn hoffi gwario eu harian, eu hagweddau a'u hymddygiad, ac yn archwilio manteision gwneud dewisiadau gwell.

Mae tri gweithgaredd, sy'n dechrau gyda'r bobl ifanc yn cwestiynu a yw eu gwariant yn hanfodol neu'n foeth. Gofynnir iddynt gyfrifo faint mae gweithgaredd yn ei gostio, a beth y gallent ei brynu yn lle er mwyn arbed arian. Mae'n cyflwyno dyddiadur gwario er mwyn caniatáu i'r bobl ifanc gofnodi ymhle maen nhw'n gwario eu harian, a chyfrifo faint.



SESIWN 2, GWEITHGAREDD 1

Hanfod neu Foeth



Nodau:

Nod y gweithgaredd yma yw gwneud i'r bobl ifanc ystyried ar beth y maen nhw'n gwario eu harian, a phenderfynu pa eitemau sy'n hanfodol a pha rai sy'n foeth. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i arbed arian ac i ddeall pwysigrwydd rheoli eu harian.



Deilliannau:

Bydd y bobl ifanc....

- Yn newid eu ffordd o feddwl am eu gallu ariannol.
- Yn teimlo'n fwy hyderus am eu gallu eu hunain i reoli arian.
- Yn deall y rhesymau dros eu diofalwch ariannol eu hunain.
- Yn fwy hyderus am eu hymreolaeth ac yn gwella'u gallu i reoli eu harian.
- Yn fwy gobeithiol ac ysbrydoledig o ran eu rhagolygon a'u hamcanion at y dyfodol.

Cynnal y Gweithgaredd



Rhowch 3 darn o bapur plaen/nodyn gludiog i bob person. Gofynnwch i'r bobl ifanc ysgrifennu un peth maen nhw'n gwario arian arno'n rheolaidd ar bob un o'r 3 darn papur/nodyn gludiog.



Rhannwch y bobl ifanc yn grwpiau, a rhowch ddarn o bapur siart droi a pheniau i bob grŵp. Gofynnwch iddyn nhw roi llinell i lawr canol y dudalen, ac ysgrifennu 'Angen' ar un ochr, ac 'Eisiau' ac yr ochr arall.



Gofynnwch i'r bobl ifanc ystyried a yw eu gwariant yn disgyn i'r categori Angen neu Eisiau, ac i roi eu darnau o bapur/nodyn gludiog yn y golofn briodol. Mae'n bosibl y bydd gan ddau neu fwy o bobl yr un eitem ond eu bod am eu gosod mewn colofnau gwahanol. Does dim byd o'i le ar anghytuno. Gofynnwch iddyn nhw feddwl am y rhesymau dros eu dewis.



Gofynnwch i'r grwpiau roi adborth i'r grŵp am beth maen nhw'n ei ystyried i fod yn Angen neu'n Eisiau.

Gweithgaredd Torri'r Iâ:

Esboniwrch a chyflwynwch weithgaredd torri'r iâ.

Rheolau'r Grŵp:

Edrychwch ar gytundeb y grŵp eto, gofynnwch i'r grŵp a ydyn nhw am adolygu'r cytundeb ac ychwanegu rhywbeth?

Gwerthuso:

Llenwch holiaduron gwerthuso cyn ac ar ôl y sesiwn, cyn y gweithgaredd cyntaf ac ar ôl yr un olaf (opsiynol ond dymunol).

Adnoddau'r sesiwn:

Darnau bach o bapur plaen neu nodiadau gludiog, Siart Droï, peniau.



Awgrymiadau Defnyddiol




- * Anogwch y bobl ifanc i fod yn onest ac i gynnwys beth maen nhw'n gwario'r rhan fwyaf o'u harian arno yn ystod yr wythnos. Gallai eu dewisiadau gynnwys defnyddio sylweddau neu'n bethau nad yw pawb yn cytuno â nhw. Mae hi'n bwysig eu bod nhw'n gallu gwneud hyn beth bynnag yw eu dewis.
- * Mae esiamplau o'r pethau y gallent wario eu harian arno'n cynnwys: McDonalds, sigarêts, gemau, coffi, tocynnau bws, losin, sinema a ffonau symudol.





SESIWN 2, GWEITHGAREDD 2

Gwneud i Bob Ceiniog Gyfri



Nodau:

Nod y gweithgaredd yma yw rhoi cyfle i'r bobl ifanc edrych ar eu gwariant a meddwl sut y gallant wneud dewisiadau gwell. Bydd hyn yn eu galluogi i gyfrifo'u harbedion a gweld ar beth y gallan nhw wario'u harian yn lle.



Deilliannau:

Bydd y bobl ifanc....

- Yn newid eu ffordd o feddwl am eu gallu ariannol
- Yn teimlo'n fwy hyderus am eu gallu eu hunain i reoli arian.
- Yn fwy hyderus am eu hymreolaeth ac yn gwella'u gallu i reoli eu harian.
- Yn fwy gobeithiol ac ysbrydoledig o ran eu rhagolygon a'u hamcanion at y dyfodol.

Adnoddau'r sesiwn:

Taflen Gweithgaredd
Ffigurau Cudd a'r
Daflen Esiamlau o
Gardiau Ffigurau Cudd,
peniau.

Cynnal y Gweithgaredd

1.

Dosbarthwch daflen y gweithgaredd Ffigurau Cudd a Thaflen Esiamlau o Gardiau Ffigurau Cudd.

2.

Ewch drwy'r daflen gyda'r grŵp.

- ✱ Enwch yr eitem: Eitem maen nhw'n ei brynu'n gyson sy'n eitem moeth
- ✱ Beth yw'r gost?: Cost un
- ✱ Pa mor aml ydyn nhw'n prynu'r eitem yma? e.e. os bob dydd, lluoswch y gost â 365

3.

Holi ac Ateb/Trafodaeth

- ✱ Gofynnwch i'r grŵp sut y maen nhw'n teimlo am eu gwariant?
- ✱ A oedd hi'n syndod iddyn nhw faint maen nhw'n ei wario dros gwrs blwyddyn?
- ✱ Beth y gallent fod yn ei brynu gyda'r arian yna?



Awgrymiadau Defnyddiol



- ✱ Llenwch daflen cyn y sesiwn fel esiampl o daflen gyflawn. Gallech ddarparu esiamplau go iawn o arbedion y gallech eu gwneud eich hun.
- ✱ Paratowch daflen a rhestrwch y gweithgareddau neu'r eitemau â gwahanol gostau y gellir eu defnyddio i gymharu beth y gallent fod yn gwario eu harian arno e.e. gwyliau, ernes am dŷ, car, gwersi gyrru ac ati.

MEDDYLIA AM RYWBETH RWTY TI’N EI BRYNU’N GYSON

Enwa’r eitem

Beth yw ei gost?

Pa mor aml wyt ti’n gwario ar yr eitem yma?

x365

Bob dydd

x150

Bob ychydig ddyddiau

x52

Bob wythnos

x12

Bob mis

Dy wariant am
y flwyddyn:

Gallet ti
ddefnyddio’r swm
yma ar...


Esiamplau o gardiau ffigurau cudd




**Gwyliau
hollgynhwysol
£600**



**Treineri newydd
£60**



**iPhone 8
(talwrth
ddefnyddio)
£600**



**iPhone 8
(contract)
£47 y mis**



**Prynu car
£3000**




**Yswirio car
£1000**



**Mynd i deithio
am flwyddyn
£5000**



**10 o wersi
gyrru
£200**



**Xbox One X
£449.99**




**Sesiwn Maldod
a The Prynhawn
£89.00**



SESIWN 2, GWEITHGAREDD 3

Dyddiadur Gwario



Nodau:

Nod y gweithgaredd yma yw helpu'r bobl ifanc ddeall pwysigrwydd cyllidebu i gyflawni nod ac i gydnabod bod ganddyn nhw'r pŵer i reoli eu gwariant a dod yn ariannol alluog.

Adnoddau'r sesiwn:

Siart Papur Troi, peniau cerdyn/papur, amlenni a labeli gludiog gwyn.



Deilliannau:

Bydd y bobl ifanc....

- Yn newid eu ffordd o feddwl am eu gallu ariannol.
- Yn teimlo'n fwy hyderus am eu gallu eu hunain i reoli arian.
- Yn deall y rhesymau dros eu diofawch ariannol eu hunain.
- Yn fwy hyderus am eu hymreolaeth ac yn gwella'u gallu i reoli eu harian.
- Yn fwy gobeithiol ac ysbrydoledig o ran eu rhagolygon a'u hamcanion at y dyfodol.

Cynnal y Gweithgaredd

1.

Dosbarthwch sticeri ag enwau arnynt, a gofynnwch i'r bobl ifanc nodi faint o arian maen nhw'n meddwl y gwnaethon nhw ei wario'r wythnos ddiwethaf a glynu'r sticer ar eu talcen/siwmpwr.

2.

Hwyluswch drafodaeth grŵp cyfan gan ddefnyddio'r cwestiynau canlynol i fwydo'r sgwrs:

- ★ Ydy hi'n hawdd neu'n anodd cofio popeth y gwarioch chi'r wythnos ddiwethaf?
- ★ Ydych chi'n meddwl bod pobl ifanc yn cynllunio eu gwariant? Pam/pam lai?

3.

Dosbarthwch y taflenni dyddiadur gwario a gofynnwch i'r bobl ifanc eu llenwi cystal ag y gallan nhw er mwyn cofio beth maen nhw wedi ei wario dros y saith diwrnod diwethaf.

4.

Nawr gofynnwch iddyn nhw edrych ar y swm roedden nhw'n meddwl eu bod wedi ei wario. Gofynnwch i'r bobl ifanc ddweud wrth y grŵp a oedd eu dyddiadur gwario'n cyd-fynd â'r swm roedden nhw'n meddwl eu bod wedi ei wario ai peidio. Trafodwch sut maen nhw'n teimlo am hyn, ac a oes modd cwtogi ar y swm?

5.

Rhowch ddyddiadur gwario arall i bob un a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu ar y cefn beth maen nhw'n meddwl y byddan nhw'n ei wario dros y 7 diwrnod nesaf. Gofynnwch iddyn nhw ystyried ceisio gwneud eu gwariant yn llai na'r wythnos ddiwethaf a cheisio gweld a allan nhw wneud arbedion.

6.

Gofynnwch i'r bobl ifanc lenwi eu dyddiaduron gwario dros yr wythnos nesaf i'w cynorthwyo i gadw trac ar eu gwariant. Ar ddiwedd yr wythnos, gallant gymharu'r swm a wariwyd â'r swm yr oedden nhw'n meddwl y byddent yn ei wario ar ddechrau'r wythnos. Esboniwch fod gwneud hyn yn gyson yn gallu eu cynorthwyo i ddechrau rheoli eu harian yn well, a gwneud dewisiadau gwell.

Dyddiadur Gwario

Amcangyfrif o'ch incwm yr wythnos yma - £.....




SESIWN 3

CAMPAU CYNILO



Mae'r sesiwn yma'n edrych ar sut y gall y bobl ifanc ddechrau newid eu harferion gwario trwy glustnodi a thracio arbedion sy'n berthnasol iddyn nhw.

Mae tri gweithgaredd sy'n clustnodi gwariant sy'n berthnasol i bobl ifanc. Maen nhw'n archwilio dulliau amgen o arbed arian er mwyn dangos i'r bobl ifanc y gallant gynyddu faint o arian sydd ar ôl ganddynt ar ddiwedd yr wythnos trwy wneud mân-arbedion.



SESIWN 3, GWEITHGAREDD 1

Chwilio am Arbedion



Nodau:

Nod y gweithgaredd hwn yw dangos i'r bobl ifanc bod yna opsiynau ar gael iddynt wrth feddwl am wario'u harian.

Adnoddau'r sesiwn:

Cardiau Cadw-mi-gei/
Arian.



Deilliannau:

Bydd y bobl ifanc....

- Yn deall pwysigrwydd rheoli arian a chael cymorth i newid eu ffordd o feddwl.
- Yn newid eu ffordd o feddwl i allu ariannol.
- Yn cydnabod ac yn deall y rhwystrau i allu ariannol.
- Yn fwy hyderus am eu hymreolaeth ac yn gwella'u gallu i reoli eu harian.

Cynnal y gweithgaredd

1.

Rhowch un garden i bob person ifanc. Dywedwch wrthynt am beidio â dangos eu cardiau i neb arall. Mae'r cardiau mewn parau, a bydd angen i chi roi digon o barau i'r grŵp. Os oes odrif yn eich grŵp, dylech roi cerdyn i un o'r cyflwynwyr hefyd.

2.

Esboniwch y bydd naill ai llun o arian neu gadw-mi-gei ar y garden. Os oes arian ar y garden, gwariwr ydyn nhw; os oes cadw-mi-gei, cynilwr ydyn nhw. Bydd cerdyn cynilwr i gyd-fynd â phob cerdyn gwariwr, e.e. Mae'r 'Gwariwr' yn prynu tocynnau unigol i bawb yn y teulu wrth ymweld â Pharc Thema, ac mae'r 'Cynilwr' yn prynu cerdyn disgownt i deulu gan arbed £15 oddi ar gyfanswm cost y tocynnau.

3.

Gofynnwch i'r grŵp weithio ar eu pennau eu hunain ar gyfer y gweithgaredd yma. Gofynnwch iddynt edrych ar eu cardiau eu hunain a meddwl beth fyddai'r gwrthwyneb. e.e. os oes cerdyn cynilwr ganddynt, mae angen iddynt feddwl beth y byddai eu cerdyn gwariwr ei ddweud; neu os oes cerdyn gwariwr ganddynt, mae angen iddynt feddwl beth fyddai'r cerdyn cynilwr yn ei ddweud.

4.

Gofynnwch i'r bobl ifanc ysgrifennu ambell i awgrym, neu os ydyn nhw'n gwybod sut y gallent arbed/gwario yn dibynnu pa gerdyn sydd gyda nhw, a faint maen nhw'n meddwl y gallen nhw wario/arbed arian

Cardiau Cadw-mi-gei/Arian

Torrwch a lamineiddiwch bob cerdyn ar wahân i'w defnyddio yn Sesiwn 3, Gweithgaredd 1



BWS

Rwyn prynu tocyn wythnos i deithio i'r coleg bob wythbos.

£13.00



BWS

Rwyn prynu tocynnau dydd i deithio i'r coleg bob dydd.

£18.00



DŴR

Rwyn llenwi fy mhotel or tap bob dydd.

£0.00



DŴR

Rwyn prynu potel a ddiod di-alcohol bod dydd.

£1.20



ANRHEGION

Rwyn prynu anrhegion yn y sel neu brynu sawl un yr un pryd.

£20.00



ANRHEGION

Prynu anrhegion am y pris llawn.

£60.00



FFÔN POCED

Disgowntiau i deulu a ffrindiau, cap ar ddefnydd data a defnyddio Wi-Fi.

£25.00



FFÔN POCED

Mynd y dros swm fy nghynllun bob mis bron.

£45.00



SMYGU

Rwyn prynu baco bob wythnos.

£4.00



SMYGU

Rwyn prynu 3 phe cyn o sigarét yr wythnos.

£26.46



CINIO

Paratoi bwyd i fynd i'r coleg 4 diwrnod yr wythnos

£4.00



CINIO

Prynu bwyd McDonalds 4 diwrnod yr wythnos.

£18.00



PETHAU YMOLCHI

Prynu brand y siop bob wythnos.

£4.00



PETHAU YMOLCHI

Prynu brand drud bob wythnos.

£8.00



SWPER

Gwneud fy nghyri fy hun i'w fwynhau gyda'r teulu nos Sadwrn

£4.00



SWPER

Cael bwyd tecawê unwaith yr wythnos

£20.00



COFFI

Gwneud diod boeth adref ac yn mynd â fy nghwpan teithio i'r coleg 5 diwrnod yr wythnos

£3.00



COFFI

Prynu diod boeth o Starbucks 5 diwrnod yr wythnos



£14.75





SESIWN 3, GWEITHGAREDD 2

Ffeindio'r arbediad



Nodau:

Nod y gweithgaredd yma yw annog pobl ifanc i newid eu harferion gwario ac edrych ar ddewisiadau eraill.

Adnoddau'r sesiwn:

Cardiau Cadw-mi-gei/
Arian.



Deilliannau:

Bydd y bobl ifanc....

- Yn deall pwysigrwydd rheoli arian a chael cymorth i newid eu ffordd o feddwl
- Yn newid eu ffordd o feddwl i allu ariannol
- Yn deall y rhesymau dros eu diofalwch ariannol eu hunain.
- Yn fwy hyderus am eu hymreolaeth ac yn gwella'u gallu i reoli eu harian.
- Yn fwy gobeithiol ac ysbrydoledig o ran eu rhagolygon a'u hamcanion at y dyfodol.

Cynnal y gweithgaredd

1.

Gofynnwch i'r grŵp sefyll a symud i le agored yn yr ystafell. Esboniwch fod angen iddynt ffeindio eu partner. Rhaid i bawb â cherdyn arian ffeindio eu partner sydd â cherdyn cadw-mi-gei a'r ffordd arall hefyd. e.e. bydd angen i'r person sy'n prynu pas bws bob dydd ddod o hyd i'r person sy'n prynu pas bws wythnosol.

2.


Ni chaiff y bobl ifanc ddweud y gair sydd mewn porffor neu las. Rhaid iddynt gerdded o amgylch yr ystafell i ddod o hyd i'r person gyda'r cerdyn cyfatebol a siarad yn dawel fel na all neb glywed pa gerdyn sydd ganddynt.

3.

Pan fo pawb wedi eu paru, gall y bobl ifanc greu arwydd i'w ddal i fyny i roi gwybod i weddill y grŵp beth sydd ar eu cerdyn.



Ffordd arall o chwarae

- Yn hytrach na chael y bobl ifanc yn cerdded o gwmpas yn chwilio am eu partner, gallwch ofyn i'r arbedwyr fynd i naill ochr yr ystafell, a'r gwarwyr i'r llall.
- Yn eu tro, dylai pob person ddarllen beth sydd ar eu cardiau'n uchel heb ddweud y gair porffor neu las. Os ydych chi'n meddwl taw chi yw'r partner, ewch i sefyll o flaen y person.
- Nid oes angen gwneud arwydd os ydych chi'n bwriadu defnyddio'r "Ffordd arall o chwarae" yng ngweithgaredd 2.



SESIWN 3, GWEITHGAREDD 3

Arbedion Di-ri



Nodau:

Nod y gweithgaredd yma yw annog y bobl ifanc i newid eu harferion gwario ac ystyried gwneud newidiadau bach trwy ddewis opsiynau eraill a gwneud arbedion.



Deilliannau:

Bydd y bobl ifanc....

- Yn deall pwysigrwydd rheoli arian a chael cymorth i newid eu ffordd o feddwl
- Yn cydnabod a deall y rhwystrau i allu ariannol.
- Yn deall y rhesymau dros eu diofalwch ariannol eu hunain.
- Yn teimlo'n fwy hyderus am eu gallu eu hunain i reoli arian
- Yn fwy hyderus am eu hymreolaeth ac yn gwella'u gallu i reoli eu harian.
- Yn fwy gobeithiol ac ysbrydoledig o ran eu rhagolygon a'u hamcanion at y dyfodol.

Adnoddau'r sesiwn:

Taflenni Arbed Arian, peniau ysgrifennu, darnau arian a chardiau cadw mi gei (o weithgaredd 1).

Cynnal y gweithgaredd

1.

Dosbarthwch y taflenni arbedion, gofynnwch i'r bobl ifanc ysgrifennu'r eitem ar eu carden e.e. bws. Yn y "golofn arbed" ysgrifennwch faint y byddan nhw'n ei arbed trwy ddilyn yr awgrym.

2.

Wedyn bydd angen i'r bobl ifanc fynd o gwmpas yr ystafell gan ofyn i barau eraill wneud arbediad newydd. Os ydyn nhw'n cytuno bod angen yr arbediad arnynt, gall y bobl ifanc gyfnewid eu cardiau a'u harwyddion, e.e. bydd y bobl ifanc â cherdyn bws yn mynd at y bobl ifanc â'r cerdyn coffi ac yn cynnig cyfnewid cardiau. Os yw'r yfwyr coffi am gael arbediad y bws, yna gallant gyfnewid. Gall y bobl ifanc ysgrifennu ar y daflen arbed beth maen nhw wedi ei arbed trwy gael y fargen arbed ar goffi. *Bydd y bobl ifanc yn gwybod beth sydd gan bob pâr, am eu bod wedi gwneud yr arwyddion yng ngweithgaredd 2.*

3.

Fodd bynnag, os nad yw'r bobl ifanc â chardiau coffi'n defnyddio'r bws, gallant wrthod cyfnewid am nad oes angen yr arbediad arnynt.

4.

Bydd hyn yn parhau o gwmpas yr ystafell gyda'r parau'n cyfnewid cardiau ac arwyddion ac yn ysgrifennu eu harbedion i lawr nes bod gan bawb bopeth sydd ei hangen arnynt.

5.

Pan fyddant wedi gwneud hyn, bydd angen iddynt adio'r cyfan at ei gilydd i weld faint maen nhw wedi ei arbed.

Ffordd wahanol o chwarae?

1. Dosbarthwch y taflenni arbed ac esboniwch fod y prisiau a'r arbedion wedi eu rhestru ar y gwahanol gardiau. Gofynnwch i'r grŵp gyfrifo faint o arian y gallant ei arbed gyda phob eitem.
2. Mae rhesi gwag ar waelod y daflen. Gofynnwch i'r grŵp ffeindio mwy o arbedion y gallant eu gwneud eu hunain a'u hysgrifennu yn y colofnau.
3. Gofynnwch i'r grŵp adio'r arbedion at ei gilydd.
4. Ewch o gwmpas yr ystafell a gofyn i unigolion ddarllen yr hyn y maent wedi'i ychwanegu at y daflen.
5. Holi ac Ateb (Pa mor ddefnyddiol oedd y sesiwn hon? A fyddwch chi'n newid eich arferion gwario yn dilyn y sesiwn yma? Beth fyddwch chi'n ei wneud yn wahanol?)

Taflen Arbedion ar gyfer y Gweithgaredd Arbedion Di-ri

Eitem	Pris Llawn	Pris Newydd	Arian a Arbedwyd
<i>Esiampl: Tocynnau i gyngerdd</i>	<i>£120 talu wrth y drws</i>	<i>£60 bwcio ar lein</i>	<i>£60 o arbediad</i>
Cyfanswm			

Arbedion Di-ri - gwneud pethau'n wahanol

Cyfrifwch eich arbedion os ydych chi'n debygol o brynu'r eitemau ar y rhestr. Os na, rhwch linell trwy'r blwch. Ffeindiwch ragor o arbedion y gallwch eu gwneud a nodwch y cyfanswm ar y gwaelod.

Eitem	Pris Llawn	Pris Is Newydd	Arian a Arbedwyd
Tocynnau i 4 i Barc Thema	£120 talu wrth y drws	£60 bwcio ar lein	£60
Bws	£18.00	£13.00	
Dŵr	£1.20	£0.00	
Anrhegion	£60.00	£20.00	
Ffôn poced	£45.00	£25.00	
Smygu	£26.46	£4.00	
Cinio	£18.00	£4.00	
Pethau Ymolchi	£8.00	£4.00	
Te	£20.00	£4.00	
Coffi	£14.75	£3.00	
Cyfanswm			



Cyfeirlyfr Cyngor a Chymorth



Youth Cymru	Manylion cyswllt ar lein, prosiectau cyfredol, hyfforddiant: www.youthcymru.org.uk
Cyngor ar Bopeth	Manylion cyswllt ar lein ac amrywiaeth o gymorth a gwybodaeth: www.citizensadvice.org.uk
Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol	www.moneyadviceservice.org.uk/en/corporate/young-people-and-money-toolkit-yphub
The Money Charity	www.themoneycharity.org.uk/contact-us
Money Instructor.com	www.moneyinstructor.com/budgeting.asp
Meic	www.meiccymru.org
Rightsnet	www.rightsnet.org.uk
Advice Now	www.advicenow.org.uk
Mynediad Ieuenctid	www.youthaccess.org.uk/supernav/links
Ymddiriedolaeth y Gofalwyr	www.carers.org
Gofalwyr UK	www.carersuk.org/help-and-advice
UK Youth	www.ukyouth.org/programmes.html
Canolfan Gyfreithiol Cyfiawnder Ieuenctid	www.yjlc.uk
Cymorth i Ddiodefwyr	www.victimsupport.org.uk
Scope	www.scope.org.uk
Disability Rights UK	www.disabilityrightsuk.org/how-we-can-help
Childline	www.childline.org.uk
Combat Stress	www.combatstress.org.uk
Mind Cymru	www.mind.org.uk/information-support
SNAP Cymru	www.snapcymru.org
Ymddiriedolaeth y Tywysog	www.princes-trust.org.uk
Cynlluniwr Cyllidebau Ymddiriedolaeth y Tywysog	www.princes-trust.org.uk/help-for-young-people/tools-resources/money-management/budget-planner
Galw Iechyd Cymru	www.nhsdirect.wales.nhs.uk/Default.aspx
NHS Choices	www.nhs.uk/pages/home.aspx
Centre Point	www.centrepont.org.uk
Sgiliau Byw Barclays	www.barclayslifeskills.com
Drugabuse.com	www.drugabuse.com/library/how-to-help-a-drug-addict
Gov.uk	www.gov.uk/contact-jobcentre-plus
GovUK	www.gov.uk/options-for-paying-off-your-debts
Money Saving Expert	www.moneysavingexpert.com/loans/debt-help-plan



Pwy yw Youth Cymru?

Sefydliad gwirfoddol cenedlaethol yw Youth Cymru a chanddo dros wythdeg mlynedd o brofiad o weithio i gynorthwyo gwaith ieuenctid a phobl ifanc yng Nghymru. Rydyn ni'n darparu adnoddau, dewisiadau a chyfleoedd i bobl ifanc ddysgu, datblygu a thyfu. Rydyn ni'n gweithio gyda 227 o aelod-sefydliadau, ac yn darparu hyfforddiant, achrediad a chyfleoedd iddynt lewyrchu. Ein nod yw galluogi pobl ifanc i fod yn hyderus ac yn gryf; gyda'r grym i gyflawni eu potensial ac i gyfrannu at eu cymunedau. Trwy sicrhau bod eu hawliau'n cael eu sefydlu'n gadarn mewn arferion, ein nod yw sbarduno newid cadarnhaol i bobl ifanc trwy ein gwerthoedd sylfaenol a'n dylanwad strategol. Rydyn ni'n gweithio gyda'n haelodau i ddarparu prosiectau sy'n unigryw, yn arloesol ac yn newid bywydau pobl ifanc er gwell.



Strategaeth Ariannol y DU

Mae Strategaeth Ariannol y DU, a lansiwyd yn Hydref 2015, yn darparu cynllun 10 mlynedd gyda'r nod o gynorthwyo gallu pobl i reoli eu harian yn well o ddydd i ddydd, paratoi ar gyfer, a rheoli digwyddiadau bywyd, a delio ag anawsterau ariannol. Nod y strategaeth yw gwella galluoedd ariannol pobl ar draws y DU. Mae hynny'n golygu gwella gallu pobl i reoli eu harian yn dda, o ddydd i ddydd a thrwy ddigwyddiadau arwyddocaol mewn bywyd, yn ogystal â'u gallu i ymdrin â chyfnodau o anhawster ariannol. Y prif ffocws yw datblygu sgiliau a gwybodaeth ariannol pobl, a gwella eu hagweddau a'u cymhelliant.